# Diwrnod Etholiad Senedd Cymru 2026

Heddiw, ledled Cymru, mae pobl yn pleidleisio.

Mae yna ymdeimlad ein bod efallai'n camu i gyfnod gwahanol iawn ym mywyd ein cenedl a gall hynny ein llenwi â gobaith...neu gofid.

Rydym wedi cynhyrchu fideos a briffiau yn y gobaith i rhoi y mwyaf o wybodaeth ag sy'n bosibl i chi er mwyn eich helpu i bleidleisio.

*Erfyniwn arnoch i ddefnyddio eich pleidlais.*

Ar ddiwrnod ac mewn cyfnod fel hyn cofiwn fod yr eglwys wedi ei galw i dystio i Grist.

Yn ei lythyr at yr Effesiaid, ar gychwyn pennod 4 mae Paul yn annog y gymuned Gristnogol i fyw mewn gostyngeiddrwydd, addfwynder, amynedd a chariad; i wneud pob ymdrech i gadw undod yr Ysbryd yng nghwlwm tangnefedd. Mae'n ein hatgoffa ein bod yn un corff, wedi ein galw i un gobaith, dan un Arglwydd.

Nid yw hynny'n golygu y bydd Cristnogion i gyd yn pleidleisio yn yr un ffordd. Byddwn ni ddim. Bydd pobl ffyddlon yn pwyso anghenion Cymru mewn ffyrdd gwahanol. Byddant yn cario pryderon gwahanol: dros dlodi a gwasanaethau cyhoeddus, dros iaith a diwylliant, dros yr hinsawdd, dros blant a phobl hŷn, dros gyfiawnder, gwirionedd a heddwch.

Ond ar ôl i'r pleidleisiau gael eu cyfrif, mae ein galwad yn aros yr un fath.

Fe'n gelwir i garu ein cymdogion. Fe'n gelwir i weddïo dros ein gwleidyddion, a thros y rhai sy'n siomedig. Fe'n gelwir i lefaru'r gwir heb ddirmyg, i anghytuno heb gasineb, ac i wasanaethu heb ofyn pwy sy'n haeddu ein gofal.

Pa bynnag dirwedd wleidyddol a ddaw i'r amlwg, bydd Cymru'n dal i fod angen cymunedau o dosturi, lleoedd o groeso, lleisiau o obaith, a phobl sy'n ymroddedig i ffyniant pawb yn gyffredin.

Felly heddiw, gadewch inni bleidleisio yn weddigar. Gadewch inni siarad yn addfwyn. Gadewch inni wrando ar ein gilydd. A gadewch inni gofio nad yw ein hundod wedi ei adeiladu ar unrhyw blaid, rhaglen na chanlyniad, ond ar y Duw a ddaeth i'n plith ym mherson Iesu Grist.

---

**Boed i heddwch Crist arwain Cymru heddiw ac yn y dyddiau sydd i ddod.**

**Duw bendithia Gymru.**